**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru

Ebrill 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/0392
Rhif dogfen:13/025

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru

Ebrill 2013

Helen Jones

Mae Addysg Bellach (AB) yn cynnwys darpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl dros 16 oed yn bennaf, ac mae'n amrywio o sgiliau sylfaenol a hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith i raddau ar y lefel sylfaen. Yn bennaf, mae rhaglenni AB ar gael mewn colegau AB, amgylcheddau dysgu seiliedig ar waith, ac amgylcheddau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r papur ymchwil hwn yn canolbwyntio ar golegau AB yng Nghymru ac yn ymchwilio i gyd-destun y trefniadau uno a chydweithredu diweddar. Mae ystadegau amrywiol wedi'u cynnwys i roi manylion am strwythur yr amgylchedd AB yng Nghymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir ..... 2**

2.1. Y cefndir cyffredinol ..... 2
2.2. Yr agenda drawsnewid ..... 3

**3. Uno colegau AB ..... 4**

3.1. Cynlluniau arfaethedig i uno rhwng 2008 a 2012 ..... 4
3.2. Rhagor o drefniadau uno a ddisgwylir erbyn mis Awst 2013 ..... 5
3.3. Y sefyllfa bresennol ..... 7
3.3.1. Corfforaethau AB ..... 7
3.3.2. Sefydliadau AB ..... 7
3.3.3. Eraill ..... 7

**4. Nodweddion colegau AB ..... 8**

4.1. Y data diweddaraf – 2011/12 ..... 8
4.2. Nifer y dysgwyr ..... 8
4.3. Oedran y dysgwyr – pob band oedran ..... 10
4.4. Oedran y dysgwyr – 16 i 19 oed ..... 11
4.5. Proffil oedran dysgwyr a'r boblogaeth ..... 12
4.6. Dysgu llawnamser, rhan amser a dysgu sy'n seiliedig ar waith ..... 14
4.7. Nodau dysgu ..... 15
4.8. Pynciau ..... 16
4.9. Nifer y staff ..... 17

**5. Cyllid AB ..... 18**

5.1. Cefndir ..... 18
5.2. Y dyraniadau cyllid presennol ..... 19

**6. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) – Papur Gwyn ..... 22**

6.1. Cefndir ..... 22
6.2. Ymatebion i'r ymgynghoriad ..... 23

**7. Map yn dangos lleoliad SABau yng Nghymru ..... 25**

# Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru

## 1. Cyflwyniad

Mae Addysg Bellach (AB) yn cynnwys darpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl dros 16 oed yn bennaf, ac mae'n amrywio o sgiliau sylfaenol a hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith i raddau ar y lefel sylfaen[1]. Yn bennaf, mae rhaglenni AB ar gael mewn colegau AB, amgylcheddau dysgu seiliedig ar waith, ac amgylcheddau dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r papur ymchwil hwn yn canolbwyntio ar golegau AB yng Nghymru ac yn ymchwilio i gyd-destun y trefniadau uno a chydweithredu diweddar. Mae ystadegau amrywiol wedi'u cynnwys i roi manylion am strwythur yr amgylchedd AB yng Nghymru.

[1] Yn 2010/11, roedd 2.7% o ddysgwyr mewn colegau/sefydliadau AB o dan 16 oed (gweler Tabl 2 yn y papur hwn)

## 2. Cefndir

Mae trefniadau uno wedi bod yn un o nodweddion allweddol y sector AB ers nifer o flynyddoedd, ac mae wedi deillio o newidiadau i strwythurau cyllido ac agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid.

### *2.1. Y cefndir cyffredinol*

Golygai ***Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992***[2] nad oedd colegau AB o dan reolaeth awdurdodau lleol mwyach a daethant yn gorfforaethau cyfreithiol ar wahân. Daeth colegau AB yn gyfrifol am eu trefniadau llywodraethu eu hunain, eu cyllid, eu hystadau, eu systemau adnoddau dynol a'u portffolios cwricwlwm, ymhlith llawer o elfennau eraill.

I ddechrau, cafodd colegau AB gyllid drwy Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC). O dan ***Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000***[3] sefydlwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a ddaeth i gael ei adnabod fel ELWa. Disodlwyd CCABC gan ELWa a oedd â'r cylch gwaith o gynllunio a chyllido dysgu ôl-16, a'i nod oedd datblygu strwythur AB cydlynol. Unwyd ELWa â Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2006. Mae Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) Llywodraeth Cymru bellach yn cyllido pob coleg AB yn uniongyrchol, ac mae colegau AB yn gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain hefyd.

ColegauCymru yw'r elusen addysg genedlaethol sy'n cynrychioli pob coleg a sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'n sefydliad aelodaeth wirfoddol.

[2] Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, (pennod 15)[fel ar 8 Mawrth 2013]
[3] Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, (pennod 30) [fel ar 8 Mawrth 2013]

## *2.2. Yr agenda drawsnewid*

Mae'r sector AB yn un o'r partneriaid allweddol o ran cyflawni agenda y Llywodraeth ar gyfer trawsnewid. Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen, *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*[4], a amlygodd yr angen i ysgolion uwchradd, sefydliadau addysg bellach (SABau) a sefydliadau addysg uwch (SAU) gydweithio a lleihau aneffeithlonrwydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran cyfleoedd dysgu ôl-16.

> At hynny, mae nifer fawr o ddarparwyr addysg bellach a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith yng Nghymru a byddai symleiddio'r sector yn helpu i atgyfnerthu gweithgarwch rheoli strategol, gwella effeithlonrwydd ac ateb y galw am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant berthnasol o safon yn fwy effeithiol yn awr ac yn y dyfodol.[5]

I ddatblygu'r agenda drawsnewid, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid sefydlu Partneriaethau Dysgu daearyddol a sectoraidd i wella effeithiolrwydd y sefydliadau ac ansawdd y ddarpariaeth.

[4] Llywodraeth Cymru, **Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**, Medi 2008 [fel ar 8 Mawrth 2013]

[5] Llywodraeth Cymru, **Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**, Medi 2008 [fel ar 8 Mawrth 2013]

## 3. Uno colegau AB

Dechreuwyd uno colegau tua chanol i ddiwedd y 1990au wrth i bartneriaethau gael eu creu ac wrth i sefydliadau mawr uno â sefydliadau llai. Bu i **Goleg Merthyr Tudful** greu hanes yng Nghymru gan mai dyma'r coleg addysg bellach cyntaf i uno â Sefydliad Addysg Uwch, sef Prifysgol Morgannwg, yn 2006.

### *3.1. Cynlluniau arfaethedig i uno rhwng 2008 a 2012*

Ym mis Medi 2008, roedd **25 o Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)** yng Nghymru. Cyflwynwyd **chwe chynnig i uno SABau** i Lywodraeth Cymru rhwng 2008 a 2012; roedd y rhain yn cynnwys:

- Coleg y Barri a Choleg Glan Hafren
- Colegau Gorseinon ac Abertawe
- Colegau Glannau Dyfrdwy a Llysfasi (gyda chysylltiadau ffurfiol â Choleg Iâl yn ogystal ag uno Coleg Garddwriaeth Cymru)
- Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Llandrillo (gyda chysylltiadau â Phrifysgol Bangor) a Choleg Menai
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y De a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (y Gogledd) Coleg Harlech[6]

Ac eithrio Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y De a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (y Gogledd) Coleg Harlech, mae'r cynigion hyn i uno wedi mynd rhagddynt gan adael **cyfanswm o 18 SAB**. Mae'r rhain yn cynnwys 14 o gorfforaethau AB a phedwar sefydliad AB dynodedig (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (y Gogledd) Coleg Harlech, Coleg Catholig Dewi Sant, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y De, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru)[7]. Mae gan bob corfforaeth AB gorff llywodraethu fel y rhagnodir gan *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*. Mae sefydliadau AB yn darparu cyrsiau rhan amser i oedolion sy'n ddysgwyr gan ddefnyddio adeiladau mewn cymunedau, a chânt eu cyfarwyddo gan *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000* a *Deddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007*.

Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Trawsnewid - Y Siwrnai**[8] fel diweddariad i'r polisi Trawsnewid. Mae'r ddogfen hon yn nodi:

> Er bod y sector yn gyffredinol wedi ymateb yn dda i'r Polisi Trawsnewid nid oes gan rai colegau drefniadau uno ar hyn o bryd, ac ymddengys fod rhai yn cynnig rhywfaint o ryngweithio â darparwyr eraill.

---

[6] Colegau Cymru, **Ein Haelodau** [fel ar 8 Mawrth 2013]
[7] Colegau Cymru, **Colegau Cymru** [fel ar 8 Mawrth 2013]
[8] Llywodraeth Cymru , **Trawsnewid – y Siwrnai - Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**, Tachwedd 2009 [fel ar 8 Mawrth 2013]

Roedd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, **Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru**[9], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2011 yn argymell parhau i resymoli colegau Cymru a'u hystadau fel bod rhwng **wyth a deuddeg o endidau corfforaethol AB erbyn mis Awst 2013**. Ymatebodd ColegauCymru i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol drwy nodi:

> Taken as a whole, the report is interesting and stimulating. It includes sound recommendations that we look forward to putting into practice. It also includes some possibly controversial recommendations that will be challenging to implement and raises some important questions.[10]

## *3.2. Rhagor o drefniadau uno a ddisgwylir erbyn mis Awst 2013*

Ym mis Gorffennaf 2012, nododd Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru fod y sector AB wedi ymateb yn dda i'r rhaglen drawsnewid ac y disgwylir **tri threfniant arall i uno colegau erbyn mis Awst 2013**[11]. Ers hynny, mae'r cynlluniau canlynol i uno wedi'u cyhoeddi:

- Bydd Coleg Iâl a Choleg Glannau Dyfrdwy yn uno ar 1 Awst 2013 i greu **Coleg Cambria**[12]
- Bydd Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg yn uno ym mis Awst 2013 i ffurfio **Coleg y Cymoedd**[13]
- **Bydd Coleg Powys** a **Choleg Castell-nedd Port Talbot** yn uno ar 1 Awst 2013[14]

**Mae Coleg Sir Gâr**[15] a **Choleg Ceredigion**[16] ill dau wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi eu hachos busnes i uno â **Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant**. Mae Coleg Sir Benfro hefyd yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch prifysgol sector deuol (AB ac AU) i greu cynghrair yn rhanbarth De-orllewin Cymru. [17] [18]

---

[9] Llywodraeth Cymru, The structure of education services in Wales – Independent Task and Finish Group Report, Mawrth 2011 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[10] Colegau Cymru, Datganiad i'r Wasg, Future Proofing Further Education, Mawrth 2011 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[11] Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), Gorffennaf 2012 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[12] Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Cambria – the new college for North East Wales, 3 Rhagfyr 2013 [fel ar 5 Mawrth 2013]
[13] Coleg Morgannwg, Newyddion y Coleg, New name reflects landscape of college, 21 Chwefror 2013 [fel ar 5 Mawrth 2013]
[14] Coleg Castell-nedd Port Talbot, Newyddion/Digwyddiadau, Coleg Powys a Choleg Castell-nedd Port Talbot am uno, 25 Medi 2012 [fel ar 5 Mawrth 2013]
[15] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar benderfyniad, Funding to support the merger of Coleg Sir Gâr and the University of Wales, Trinity Saint David, 5 Tachwedd 2012 [fel ar 5 Mawrth 2013]
[16] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar benderfyniad, Funding to support merger of Coleg Ceredigion with the University of Wales Trinity Saint David, 7 Chwefror 2013 [fel ar 5 Mawrth 2013]
[17] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – 2012 Atodiad – Addysg, Mai 2012 [fel ar 5 Mawrth 2013]

Nid yw'r cynlluniau i uno Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y De a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (y Gogledd) Coleg Harlech wedi mynd rhagddynt. Nododd datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Ionawr 2013:

> Hysbysodd Coleg Harlech WEA y Gogledd fy swyddogion cyn y Nadolig o anawsterau ariannol sydd wedi arwain at sefyllfa ariannol gyffredinol sydd £900,000 yn waeth nag a ragwelwyd. (…) Tra bo'r mater yn cael ei archwilio, bydd yr uno arfaethedig gyda WEA y De yn parhau i fynd ymlaen, ond bydd ei lwyddiant wrth gwrs yn cael ei ddylanwadu gan ganlyniadau'r ymchwiliadau ariannol.[19]

---

[18] Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, **Trawsnewid Addysg…Trawsnewid Bywydau**, 2012 [fel ar 5 Mawrth 2013]

[19] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Sefyllfa Ariannol Coleg Harlech WEA y Gogledd**, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 30 Ionawr 2013 [fel ar 6 Mawrth 2013]

### 3.3. Y sefyllfa bresennol

Ar **8 Mawrth 2013,** roedd y **18 SAB** canlynol yn bodoli:

#### 3.3.1. Corfforaethau AB

- Coleg Penybont
- Coleg Caerdydd a'r Fro (Unodd Coleg y Barri â Choleg Glan Hafren ym mis Awst 2011)
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent (Crëwyd o bum coleg - colegau Brynbuga, Casnewydd, Crosskeys, Glynebwy a Phont-y-pŵl)
- Coleg Morgannwg (sy'n cynnwys colegau Pontypridd a Rhondda (1995) a Choleg Aberdâr (2003))
- Coleg Powys
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Glannau Dyfrdwy (Unodd â Choleg Llysfasi ym mis Awst 2010, ac â Choleg Garddwriaeth Cymru ym mis Awst 2009)
- Coleg Gŵyr Abertawe (Unodd Coleg Abertawe â Choleg Gorseinon ym mis Awst 2010)
- Grŵp Llandrillo Menai (Unodd Coleg Llandrillo â Choleg Meirion-Dwyfor yn 2010, ac â Choleg Menai ym mis Ebrill 2012)
- Coleg Castell-nedd Port Talbot (Crëwyd yn sgil uno Coleg Afan a Choleg Castell-nedd ym 1999)
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Iâl
- Coleg Ystrad Mynach

#### 3.3.2. Sefydliadau AB

- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y Gogledd Coleg Harlech
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y De
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru

#### 3.3.3. Eraill

- Coleg Merthyr Tudful - Peidiodd â bod yn sefydliad Addysg Bellach pan unodd â Phrifysgol Morgannwg ym mis Mai 2006

## 4. Nodweddion colegau AB

Mae'r tablau isod yn cynnwys amrywiaeth o ddata sy'n dangos nifer y dysgwyr, oedran y dysgwyr, nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl y nod dysgu a'r pwnc, a nifer y staff fesul SAB.

### *4.1. Y data diweddaraf – 2011/12*

Mae'r data diweddaraf i nodi cyfanswm y dysgwyr sy'n astudio mewn SAB yn ddata ar gyfer y flwyddyn academaidd 2011/12. Mae datganiad cyntaf Llywodraeth Cymru, ***Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yng Nghymru, 2011/12***, yn nodi:

> The figures in this release show a decline in overall learner numbers between 2010/11 and 2011/12 (…) Total numbers at FE institution fell by 3.8 per cent, with full-time learner numbers changing little (0.8 per cent fall) and part-time learner numbers at FEIs 5.1 per cent lower.[20]

Mae'r data diweddaraf fesul SAB yn ddata ar gyfer 2010/11, ac mae'r tablau sy'n dilyn i gyd yn seiliedig ar y data hwn. Disgwylir i'r data fesul SAB ar gyfer 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

### *4.2. Nifer y dysgwyr*

Mae Tabl 1 yn rhoi data ar y 18 o SABau presennol o 2006/07 i 2010/11 gan ystyried y trefniadau uno a gafwyd cyn mis Mawrth 2013. Mae Coleg Merthyr Tudful wedi'i gynnwys yn y tabl oherwydd bod gweithgareddau dysgu AB yn dal i fynd rhagddynt yn y coleg hwn, er iddo beidio â bod yn SAB, yn dechnegol, yn 2006.

Mae Tabl 1 yn dangos y canlynol:

- Roedd cyfanswm o 195,900 o ddysgwyr yn astudio mewn SABau yng Nghymru yn 2010/11.
- Rhwng 2006/07 a 2010/11 cafwyd lleihad o 22 y cant yn nifer y dysgwyr yn SABau Cymru.
- Ar ôl y trefniadau uno, Grŵp Llandrillo Menai oedd â'r nifer fwyaf o ddysgwyr yn 2010/11, sef 29,430. Coleg Catholig Dewi Sant (gyda 1,535 o ddysgwyr) a Choleg Merthyr Tudful (gyda 635 o ddysgwyr) sydd â'r niferoedd lleiaf o ddysgwyr.
- Gwelwyd y lleihad mwyaf yn nifer y dysgwyr rhwng 2006/07 a 2010/11 yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy, sef 41.5%, gyda Choleg Ceredigion yn ail lle y gwelwyd lleihad o 40.5% yn yr un cyfnod.

---

[20] Llywodraeth Cymru, ***Datganiad Cyntaf – Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol yng Nghymru, 2011/12***, (Saesneg yn unig), 26 Mawrth 2013 [fel ar 15 Ebrill 2013]

- Yng Ngholeg Cymunedol YMCA Cymru, gwelwyd cynnydd o 29.4% yn nifer y dysgwyr rhwng 2006/07 a 2010/11.

O edrych ar boblogaeth Cymru, gwelwyd:

- Lleihad cyffredinol yn nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed rhwng 2007 a 2011 (4.5%).
- Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae nifer y bobl dros 20 oed yng Nghymru wedi cynyddu 16.5% yn yr un cyfnod.
- Rhwng 2007 a 2011, gwelwyd lleihad yn nifer y dysgwyr rhwng 16, 18 a 19 oed mewn SAB yng Nghymru. Fodd bynnag, ymddengys fod y lleihad yn nifer y dysgwyr yn fwy amlwg ymysg y grwpiau oedran 25 a throsodd.
- Trafodir hyn yn fanylach yn adran 4.5.

**Tabl 1: Nifer y dysgwyr fesul Sefydliad Addysg Bellach (SAB); 2006/07 i 2010/11**

| Sefydliad Addysg Bellach | Nifer y dysgwyr | | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| | 2006/07 | 2010/11 | 2006/07 i 2010/11 |
| Coleg Penybont | 11,530 | 9,540 | -17.3 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 22,395 | 18,510 | -17.3 |
| Coleg Ceredigion | 3,815 | 2,270 | -40.5 |
| Coleg Gwent | 31,590 | 24,495 | -22.5 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 4,800 | 4,825 | 0.5 |
| Coleg Morgannwg | 12,100 | 9,175 | -24.2 |
| Coleg Powys | 6,500 | 4,785 | -26.4 |
| Coleg Sir Gâr | 10,435 | 7,815 | -25.1 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 30,270 | 17,705 | -41.5 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 22,455 | 15,995 | -28.8 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 32,675 | 29,430 | -9.9 |
| Coleg Merthyr Tudful | 615 | 635 | 3.3 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 15,110 | 10,960 | -27.5 |
| Coleg Sir Benfro | 10,610 | 7,765 | -26.8 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 1,295 | 1,535 | 18.5 |
| CAG y De | 6,525 | 7,230 | 10.8 |
| Coleg Iâl | 14,925 | 11,230 | -24.8 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 3,415 | 4,420 | 29.4 |
| Coleg Ystrad Mynach | 10,225 | 7,575 | -25.9 |
| **Cyfanswm** | **251,280** | **195,900** | **-22.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a dull astudio StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 5 Mawrth 2013]

Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## 4.3. *Oedran y dysgwyr – pob band oedran*

Mae Tabl 2 isod yn dangos oedran y dysgwyr yn ôl pob SAB. Dengys hyn fod y canlynol yn wir ers yr uno:

- Mae dysgwyr rhwng 20 a 64 oed yn cyfrif am dair rhan o bump (63.5%) o'r holl ddysgwyr mewn colegau AB.
- Coleg Catholig Dewi Sant sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr sy'n 19 oed neu'n iau, sef 99.7%.
- Coleg Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr o dan 16 oed, sef 25.6%.
- Coleg Cymunedol YMCA Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr 20 i 64 oed, sef 80.0%.
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr y Gogledd Coleg Harlech sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr 65 oed neu'n hŷn, sef 17.4%.

**Tabl 2: Canran y dysgwyr ym mhob band oedran fesul SAB; 2010/11**

*Canran y dysgwyr*

| Sefydliad Addysg Bellach | O dan 16 oed | 16 i 19 oed | 20 i 64 oed | 65 oed a hŷn | Oedran anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 0.3 | 28.8 | 67.9 | 2.8 | 0.3 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 6.5 | 29.8 | 62.7 | 0.5 | 0.6 |
| Coleg Ceredigion | 25.6 | 27.1 | 46.3 | 0.9 | 0.0 |
| Coleg Gwent | 0.8 | 27.9 | 65.0 | 6.1 | 0.1 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 0.3 | 3.9 | 77.7 | 17.4 | 0.6 |
| Coleg Morgannwg | 2.7 | 30.1 | 61.3 | 5.9 | 0.0 |
| Coleg Powys | 0.3 | 27.2 | 64.8 | 7.3 | 0.3 |
| Coleg Sir Gâr | 0.4 | 41.0 | 53.7 | 4.8 | 0.1 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 3.0 | 25.4 | 68.8 | 2.5 | 0.1 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0.3 | 31.9 | 65.5 | 1.9 | 0.4 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 3.6 | 26.7 | 64.3 | 4.5 | 1.0 |
| Coleg Merthyr Tudful | 0.0 | 77.8 | 22.2 | 0.0 | 0.0 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 0.8 | 38.1 | 55.7 | 5.1 | 0.3 |
| Coleg Sir Benfro | 1.7 | 32.8 | 61.0 | 4.4 | 0.0 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 0.0 | 99.7 | 0.3 | 0.0 | 0.0 |
| CAG y De | 0.8 | 5.6 | 78.4 | 15.1 | 0.1 |
| Coleg Iâl | 6.2 | 36.6 | 55.0 | 2.0 | 0.3 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 0.8 | 18.9 | 80.0 | 0.5 | 0.0 |
| Coleg Ystrad Mynach | 4.7 | 27.7 | 61.7 | 5.8 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **2.7** | **29.0** | **63.5** | **4.5** | **0.4** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a grŵp oedran StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## 4.4. *Oedran y dysgwyr – 16 i 19 oed*

Mae Tabl 3 isod yn dangos y dadansoddiad o ddysgwyr yn ôl bandiau oedran unigol 16 i 19 oed. Mae hyn yn datgelu'r canlynol:

- Coleg Catholig Dewi Sant sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr 16 a 17 oed, sef 48.2% a 38.4% yn y drefn honno.
- Coleg Merthyr Tudful sydd â'r gyfran fwyaf o ddysgwyr 18 oed, sef 12.7%.
- Coleg Cymunedol YMCA a Choleg Morgannwg sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr 19 oed, sef 6.7% a 5.4% yn y drefn honno.

**Tabl 3: Canran y dysgwyr 16 i 19 oed fesul SAB; 2010/11**

*Canran y dysgwyr*

| Sefydliad Addysg Bellach | O dan 16 oed | 16 oed | 17 oed | 18 oed | 19 oed | 20 oed a hŷn | Oedran anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 0.3 | 8.6 | 8.9 | 7.1 | 4.2 | 70.6 | 0.3 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 6.5 | 8.8 | 8.7 | 7.5 | 4.8 | 63.2 | 0.6 |
| Coleg Ceredigion | 25.6 | 8.8 | 7.9 | 5.9 | 4.4 | 47.1 | 0.0 |
| Coleg Gwent | 0.8 | 9.3 | 9.0 | 6.0 | 3.7 | 71.1 | 0.1 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 0.3 | 0.6 | 0.7 | 1.2 | 1.3 | 95.1 | 0.6 |
| Coleg Morgannwg | 2.7 | 7.3 | 9.0 | 8.4 | 5.4 | 67.1 | 0.0 |
| Coleg Powys | 0.3 | 10.3 | 7.4 | 5.4 | 4.0 | 72.1 | 0.3 |
| Coleg Sir Gâr | 0.4 | 12.8 | 12.9 | 10.0 | 5.3 | 58.5 | 0.1 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 3.0 | 6.7 | 7.1 | 6.7 | 4.9 | 71.3 | 0.1 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0.3 | 11.4 | 10.3 | 6.3 | 3.8 | 67.4 | 0.4 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 3.6 | 8.8 | 8.1 | 5.8 | 4.0 | 68.7 | 1.0 |
| Coleg Merthyr Tudful | 0.0 | 30.2 | 30.2 | 12.7 | 4.8 | 22.2 | 0.0 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 0.8 | 13.1 | 13.3 | 7.5 | 4.2 | 60.8 | 0.3 |
| Coleg Sir Benfro | 1.7 | 9.7 | 10.0 | 7.8 | 5.3 | 65.4 | 0.0 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 0.0 | 48.2 | 38.4 | 11.1 | 2.0 | 0.3 | 0.0 |
| CAG y De | 0.8 | 0.8 | 0.9 | 2.1 | 1.9 | 93.6 | 0.1 |
| Coleg Iâl | 6.2 | 12.8 | 12.1 | 7.2 | 4.5 | 57.0 | 0.3 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 0.8 | 1.9 | 4.6 | 5.7 | 6.7 | 80.4 | 0.0 |
| Coleg Ystrad Mynach | 4.7 | 8.1 | 9.0 | 6.7 | 4.0 | 67.5 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **2.7** | **9.2** | **9.0** | **6.5** | **4.2** | **67.9** | **0.4** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a grŵp oedran StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## 4.5. *Proffil oedran dysgwyr a'r boblogaeth*

Mae Tabl 4 yn dangos canran y newid rhwng 2007 a 2011 yn nifer y dysgwyr mewn SAB yng Nghymru a phoblogaeth Cymru, fesul grŵp oedran. Dengys hyn fod nifer y dysgwyr 16, 18 a 19 oed wedi lleihau yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â phoblogaeth y rhai o dan 16, 17 a 18 oed. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn y ganran o 41.7% ymysg y dysgwyr 65 oed a hŷn, gostyngiad o 37.2% yn y dysgwyr 50-64 oed a gostyngiad o 27.9% yn y dysgwyr 25-49 oed er bod pob grŵp oedran 50 oed a hŷn wedi gweld cynnydd yn niferoedd eu poblogaeth.

**Tabl 4: Cyfran y newid ymysg dysgwyr a phoblogaeth yn ôl grŵp oedran; 2007 i 2011**

| | *Newid canrannol rhwng 2007 a 2011* | |
|---|---|---|
| **Grŵp oedran** | **Dysgwyr mewn SAB (a)** | **Poblogaeth (b)** |
| O dan 16 oed | 4.6 | -0.9 |
| 16 | -6.1 | -8.0 |
| 17 | 2.2 | -0.4 |
| 18 | -3.2 | -0.6 |
| 19 | -6.6 | 4.5 |
| 20-24 | -10.1 | 7.1 |
| 25-49 | -27.9 | -0.2 |
| 50-64 | -37.2 | 2.8 |
| 65+ | -41.7 | 6.9 |
| **Cyfanswm** | **-22.0** | **1.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o (a) Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a grŵp oedran StatsCymru a (b) Amcangyfrifon poblogaeth Cenedlaethol Cymru yn ôl oedran a blwyddyn StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 18 Mawrth 2013]


Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

O ran canran yr holl ddysgwyr, dengys Ffigur 1 fod dysgwyr 24 oed ac iau wedi cynyddu o ran eu canran o'r holl ddysgwyr, a gwelwyd gostyngiad yng nghanran y dysgwyr dros 25 oed o blith yr holl ddysgwyr rhwng 2006/07 a 2010/11.

**Ffigur 1: Proffil oedran dysgwyr mewn SAB yng Nghymru; 2006/07 i 2010/11**




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a grŵp oedran StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## 4.6. *Dysgu llawnamser, rhan amser a dysgu sy'n seiliedig ar waith*

Mae Tabl 5 isod yn dangos bod dros ddwy ran o dair (67.8%) o ddysgwyr mewn colegau AB yn astudio'n rhan amser.

**Tabl 5: Canran y dysgwyr yn ôl dull astudio a SAB; 2010/11**

*Canran y dysgwyr*

| | Dull o astudio | | |
|---|---|---|---|
| **Sefydliad Addysg Bellach** | **Llawn amser** | **Rhan amser** | **Dysgu seiliedig ar waith** |
| Coleg Penybont | 22.1 | 74.0 | 4.0 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 27.1 | 61.3 | 11.6 |
| Coleg Ceredigion | 28.4 | 66.5 | 5.1 |
| Coleg Gwent | 26.5 | 71.3 | 2.2 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 2.2 | 97.8 | 0.0 |
| Coleg Morgannwg | 27.1 | 69.3 | 3.5 |
| Coleg Powys | 21.9 | 73.9 | 4.2 |
| Coleg Sir Gâr | 33.5 | 55.9 | 10.6 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 18.4 | 64.2 | 17.3 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 28.2 | 64.0 | 7.8 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 24.0 | 64.3 | 11.7 |
| Coleg Merthyr Tudful | 0.0 | 0.0 | 100.0 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 30.2 | 62.0 | 7.8 |
| Coleg Sir Benfro | 20.2 | 67.0 | 12.7 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 97.7 | 2.3 | 0.0 |
| CAG y De | 0.4 | 99.6 | 0.0 |
| Coleg Iâl | 26.2 | 62.6 | 11.2 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 0.0 | 100.0 | 0.0 |
| Coleg Ystrad Mynach | 23.0 | 69.2 | 7.7 |
| **Cyfanswm** | **23.7** | **67.8** | **8.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y dysgwyr yn ôl darparwr a dull astudio StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Nodiadau:

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## *4.7. Nodau dysgu*

Mae Tabl 6 isod yn dangos nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl nod dysgu a gynhaliwyd ym mhob SAB yn 2010/11. Dengys hyn y canlynol:

O blith y 668,770 o weithgareddau dysgu a gynhaliwyd ym mhob un o'r SABau yn 2010/2011, roedd 478,370 (71.5%) yn weithgareddau galwedigaethol eraill gan gynnwys cymwysterau NVQ, tystysgrif gyntaf/diplomâu, BTEC a'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCCh)[21].

Roedd 142,865 (21.4%) o weithgareddau dysgu eraill mewn Sgiliau Allweddol.

**Tabl 6: Nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl nod dysgu a SAB; 2010/11**

*Nifer y gweithgareddau dysgu*

| Sefydliad Addysg Bellach | TGAU/ TAA | Lefel UG/A2 | Sgiliau Allweddol | Lefel Addysg Uwch | Gweithgareddau dysgu galwedigaethol eraill (a) | Pob gweithgaredd dysgu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Penybont | 445 | 190 | 6,700 | 215 | 22,060 | 29,600 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 1,405 | 2,080 | 18,715 | 70 | 42,095 | 64,360 |
| Coleg Ceredigion | 270 | 140 | 1,620 | 0 | 4,500 | 6,535 |
| Coleg Gwent | 925 | 3,270 | 14,325 | 0 | 72,020 | 90,535 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 25 | 0 | 0 | 0 | 12,145 | 12,175 |
| Coleg Morgannwg | 445 | 815 | 10,635 | 0 | 34,135 | 46,035 |
| Coleg Powys | 90 | 0 | 2,340 | 15 | 16,645 | 19,095 |
| Coleg Sir Gâr | 170 | 1,470 | 7,360 | 1,710 | 12,710 | 23,425 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 145 | 865 | 14,550 | 110 | 35,530 | 51,200 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 950 | 6,675 | 8,655 | 205 | 39,295 | 55,795 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 880 | 3,150 | 18,390 | 6,885 | 66,425 | 95,735 |
| Coleg Merthyr Tudful | 0 | 0 | 540 | 0 | 1,230 | 1,765 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 485 | 3,175 | 9,445 | 390 | 26,090 | 39,585 |
| Coleg Sir Benfro | 335 | 580 | 5,695 | 0 | 16,750 | 23,360 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 475 | 3,430 | 8,635 | 0 | 3,560 | 16,100 |
| CAG y De | 0 | 0 | 0 | 0 | 14,645 | 14,645 |
| Coleg Iâl | 730 | 3,310 | 9,260 | 0 | 25,960 | 39,265 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,310 | 6,310 |
| Coleg Ystrad Mynach | 525 | 490 | 6,000 | 0 | 26,235 | 33,250 |
| **Cyfanswm** | **8,305** | **29,635** | **142,865** | **9,600** | **478,370** | **668,770** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl darparwr a nod dysgu StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Nodiadau

(a) Yn cynnwys NVQ (gan gynnwys cymwysterau'r FfCCh sy'n disodli'r cymwysterau NVQ yn uniongyrchol, Tystysgrif/Diploma Genedlaethol, Tystysgrif/Diploma Gyntaf, Tystysgrif neu Ddiploma BTEC/Rhwydwaith y Coleg Agored/Mynediad, cymwysterau'r FfCCh (ac eithrio'r rhai sy'n cyfateb yn uniongyrchol i NVQ) a gweithgareddau dysgu eraill.

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

[21] Cymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*

## *4.8. Pynciau*

Dengys Tabl 7 isod fod y nifer fwyaf o weithgareddau dysgu yn 2010/11 wedi eu cynnal ar gyrsiau sydd wedi'u hanelu at baratoi ar gyfer bywyd a gwaith (41.3%) gyda Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn ail (9.9%) ac Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal yn drydydd (8.7%).

**Tabl 7: Nifer y gweithgareddau dysgu AB yn ôl pwnc; 2010/11**

| Pwnc | Gweithgareddau Dysgu | |
|---|---|---|
| | Nifer | Canran |
| Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | 276,460 | 41.3 |
| Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 66,490 | 9.9 |
| Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 57,905 | 8.7 |
| Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith | 38,695 | 5.8 |
| Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 36,020 | 5.4 |
| Manwerthu a Menter Fasnachol | 32,935 | 4.9 |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 30,025 | 4.5 |
| Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant | 28,800 | 4.3 |
| Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 22,215 | 3.3 |
| Addysg a Hyfforddiant | 21,345 | 3.2 |
| Gwyddoniaeth a Mathemateg | 19,965 | 3.0 |
| Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 13,920 | 2.1 |
| Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | 10,410 | 1.6 |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 6,495 | 1.0 |
| Gwyddorau Cymdeithasol | 4,855 | 0.7 |
| Pwnc anhysbys | 2,245 | 0.3 |
| **Pob pwnc** | **668,770** | **100.0** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl darparwr a phwnc StatsCymru (Saesneg yn unig) [fel ar 6 Mawrth 2013]

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Disgwylir i ddata am y flwyddyn academaidd 2011/12 gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2013.

## 4.9. *Nifer y staff*

Mae Tabl 8 isod yn dangos nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) a gyflogwyd gan bob SAB yn 2006/07 a 2010/11. Dengys hyn y canlynol:

- Yn 2010/11, roedd 8,810 o staff CALl yn cael eu cyflogi gan SAB yng Nghymru.
- Mae nifer y staff CALl a gyflogir gan bob SAB wedi lleihau 2.5% rhwng 2006/07 a 2010/11
- Ar ôl y trefniadau uno, Grŵp Llandrillo Menai oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf o staff CALl, sef 1,430 a Choleg Cymunedol YMCA oedd yn cyflogi'r nifer leiaf, sef 10.
- Yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr (y Gogledd) Coleg Harlech y cafwyd y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer y staff CALl a gyflogwyd o 100 yn 2006/07 i 125 yn 2010/11, sef cynnydd o 25 y cant.

**Tabl 8: Nifer y staff CALl yn ôl Sefydliad Addysg Bellach (SAB); 2006/07 i 2010/11**

| Sefydliad Addysg Bellach | Nifer y staff CALl | | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| | 2006/07 | 2010/11 | 2006/07 i 2010/11 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 585 | 595 | 1.7 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 780 | 805 | 3.2 |
| Coleg Ceredigion | 135 | 125 | -7.4 |
| Coleg Gwent | 970 | 925 | -4.6 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech | 100 | 125 | 25.0 |
| Coleg Morgannwg | 505 | 440 | -12.9 |
| Coleg Powys | 270 | 250 | -7.4 |
| Coleg Sir Gâr | 590 | 535 | -9.3 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 740 | 675 | -8.8 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 1,000 | 825 | -17.5 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 1,230 | 1,430 | 16.3 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 555 | 665 | 19.8 |
| Coleg Sir Benfro | 440 | 395 | -10.2 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 110 | 110 | 0.0 |
| CAG y De | 105 | 65 | -38.1 |
| Coleg Iâl | 490 | 450 | -8.2 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 15 | 10 | -33.3 |
| Coleg Ystrad Mynach | 415 | 390 | -6.0 |
| **Cyfanswm** | **9,035** | **8,810** | **-2.5** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn ôl sefydliad (Saesneg yn unig) [fel ar 7 Mawrth 2013]

Efallai nad yw'r symiau unigol yn cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

Ni chasglwyd data ar gyfer Coleg Merthyr o 2006/07 ymlaen ar ôl iddo uno â Phrifysgol Morgannwg yn 2006.

# 5. Cyllid AB

## *5.1. Cefndir*

Cyn 2009, roedd dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar faint a pherfformiad pob coleg AB ac fe'u cyfrifwyd drwy Gynllun Datblygu Darpariaeth blynyddol a hanesyddol. Disodlwyd y rhain gan y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn 2009-10 gyda'r nod o ganolbwyntio ar y dysgwr a chael eu harwain gan y galw[22]. Ym mis Chwefror 2011, nododd Leighton Andrews, Gweinidog Addysg Cymru, y byddai'r ffordd mae cyllid ôl-16 yn cael ei ddyrannu yn newid:

> Rydym wedi dechrau cyllidebau tair blynedd ar gyfer addysg ôl-16 er mwyn i'r system fod yn sefydlog wrth i ni adolygu trefniadau cyllid ar gyfer y dyfodol....Rwyf wedi penderfynu atal y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol wrth wneud y gwaith hwn a dyrannu cyllid gwastad ar gyfer ôl-16.[23]

Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad interim[24] ar gam un yr adolygiad cyllid ôl-16. Mae'r adroddiad yn nodi mai nod Llywodraeth Cymru yw rhoi system cynllunio a chyllido newydd ar waith ar gyfer 2014/15. Esbonia'r adroddiad mai nod y system newydd yw symud i ffwrdd o'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol flaenorol a oedd yn cael ei harwain gan y galw i system **sy'n seiliedig ar ganlyniadau**:

> Bwriedir i'r system newydd lacio'r cysylltiad uniongyrchol rhwng arian a gweithgareddau a rhoi'r pwyslais ar ddiben ac ansawdd y cynnig; a chanlyniad y cynnig hwnnw i ddysgwyr unigol.[25]

Noda'r adroddiad y bydd y system newydd yn cynllunio ac yn cyllido ar **lefel rhaglen** ac y bydd arian grant yn cael ei adolygu ar raglen dreigl **bob tair blynedd**. Hefyd, bwriedir **monitro canlyniadau** dysgu'n fanylach i fesur costeffeithiolrwydd yn ogystal â **defnyddio gwybodaeth yn well** i lywio **cynllunio seiliedig ar dystiolaeth**.

Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar ddiwedd gwanwyn 2013 a bydd yn bwydo i mewn i broses ddyraniadau 2014/15.

---

[22] Llywodraeth Cymru, ***Y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol - Canllaw***, Awst 2009 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[23] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, ***Gweinidog yn cyhoeddi newidiadau i gyllid ôl-16***, 4 Chwefror 2011 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[24] Llywodraeth Cymru, ***Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16: Adroddiad Interim***, Chwefror 2013 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[25] Ibid, t2

## *5.2. Y dyraniadau cyllid presennol*

Dengys Tabl 9 isod gyfanswm y dyraniad cyllido a dderbyniwyd gan SABau yn 2011/12 a 2012/13. Gwelodd pob SAB gynnydd o 2.5% yn ei ddyraniad cyllid yn y cyfnod hwn ac eithrio Coleg Gwent a gafodd gynnydd o 5.2% yn ei ddyraniad cyllid. Mae taenlen Llywodraeth Cymru yn cynnwys sylw bod Coleg Gwent wedi cael arian ychwanegol gan yr awdurdod lleol a dosbarthiadau chwech Blaenau Gwent yn ei ddyraniad prif ffrwd ar gyfer 2011/12. Ni fydd ffigurau 2013/14 yn cael eu rhyddhau tan fis Mai 2013 er bod datganiad gan Lywodraeth Cymru o 2011 yn nodi:

> Mae'r ffigurau dangosol yn awgrymu y bydd cynnydd o 2.5 y cant yn y cyllid ôl-16 yn 2012/13 ar gyfer addysg bellach ac awdurdodau lleol, a **bydd cynnydd pellach o 1 y cant yn 2013/14. [fy mhwyslais i]**[26]

[26] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, *Gweinidog yn cyhoeddi newidiadau i gyllid ôl-16*, 4 Chwefror 2011 [fel ar 8 Mawrth 2013]

**Tabl 9: Cyfanswm dyraniadau cyllido SABau 2011/12 a 2012/13**

| Sefydliad Addysg Bellach | Cyfanswm y dyraniad (£ miliynau) | | Newid canrannol |
|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2011/12 - 2012/13 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | 16.9 | 17.3 | 2.5 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro (a) | 29.8 | 30.5 | 2.5 |
| Coleg Ceredigion | 4.0 | 4.1 | 2.5 |
| Coleg Gwent | 40.2 | 42.3 | 5.2 |
| CAG y Gogledd Coleg Harlech (b) | 2.2 | 2.3 | 2.5 |
| Coleg Llandrillo (b) | 30.2 | 30.9 | 2.5 |
| Coleg Menai (b) | 13.9 | 14.2 | 2.5 |
| Coleg Morgannwg | 16.1 | 16.5 | 2.5 |
| Coleg Powys | 8.0 | 8.2 | 2.5 |
| Coleg Sir Gâr | 16.7 | 17.1 | 2.5 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | 21.0 | 21.5 | 2.5 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 26.3 | 27.0 | 2.5 |
| Coleg Merthyr Tudful | 6.6 | 6.8 | 2.5 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 19.3 | 19.8 | 2.5 |
| Coleg Sir Benfro | 11.5 | 11.7 | 2.5 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 5.1 | 5.3 | 2.5 |
| CAG y De | 2.2 | 2.3 | 2.5 |
| Coleg Iâl | 18.1 | 18.6 | 2.5 |
| Coleg Cymunedol YMCA | 0.9 | 0.9 | 2.5 |
| Coleg Ystrad Mynach | 14.4 | 14.7 | 2.5 |
| **Cyfanswm** | **303.2** | **311.9** | **2.9** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dyraniadau sefydliadau addysg bellach 2012/2013 (Saesneg yn unig), Mai 2012 [fel ar 8 Mawrth 2013]

Nodiadau:

(a) Unodd Coleg y Barri â Choleg Glan Hafren ym mis Awst 2011

(b) Unodd Coleg Llandrillo â Choleg Meirion Dwyfor (2010) a Choleg Menai ym mis Ebrill 2012

Disgwylir i'r dyraniadau cyllid ar gyfer 2013/14 gael eu rhyddhau ym mis Mai 2013.

- Yn 2011/12, cyfanswm y dyraniad cyllido a dderbyniwyd gan SABau oedd £303.2 miliwn (ac eithrio dysgu seiliedig ar waith).
- Yn 2012/13 cafodd SABau Cymru £311.9 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio dysgu seiliedig ar waith). Mae hyn yn gynnydd o £8.7 miliwn neu 2.9 y cant mewn cyllid rhwng 2011/12 a 2012/13.
- Yn 2012/13 Coleg Gwent a gafodd y dyraniad cyllid mwyaf, sef £42.3 miliwn a Choleg Cymunedol YMCA a gafodd y dyraniad lleiaf, sef £0.9 miliwn.

Mae colegau Cymru hefyd yn gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain drwy godi ffioedd, cynnal cyrsiau cost lawn, gwasanaethau ymgynghori, myfyrwyr o dramor, ffreuturiau, gofal plant a gwasanaethau eraill. Yn 2008, cyfanswm incwm blynyddoedd Cymru oedd £89 miliwn yn amrywio o £3.9 fesul coleg i £50 miliwn fesul coleg. Darparodd Llywodraeth Cymru £332 miliwn neu 78.8% o gyfanswm yr incwm yn 2008-09.[27]

Yn 2006, ymchwiliodd adroddiad gan Uned Ymchwil Economi Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd i'r effaith economaidd y mae colegau AB yn ei chael ar economi Cymru a daeth i'r casgliad canlynol:

> In total, adding together the economic impact of the FEIs themselves, to that of FE students, the FEIs in Wales supported an estimated output of £552.8m, and just over 11,830 FTE jobs in 2003-04. For comparison purposes the contribution of FEIs can be compared to that of higher education institutions (HEIs) in the Welsh economy.[28]

[27] Llywodraeth Cymru, **The structure of education services in Wales – Independent Task and Finish Group Report**, Mawrth 2011
[28] Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Welsh Economic Review 19.1, **The Impact of Further Education Institutions on the Economy of Wales**, 2007 [fel ar 4 Medi 2012]

## 6. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) – Papur Gwyn

### *6.1. Cefndir*

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y **Papur Gwyn** ar **Fil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)**, Gorffennaf 2012, yn amlinellu nod Llywodraeth Cymru i ailddosbarthu SABau fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH).

Ym mis Hydref 2010, at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ailddosbarthu SABau fel rhan o lywodraeth ganolog a chymhwyso hyn, yn ôl-weithredol, i'r flwyddyn y cawsant eu sefydlu, sef 1993. Noda Llywodraeth Cymru y bydd yr ailddosbarthu hwn yn newid y ffordd y caiff gwybodaeth ariannol ei chasglu a'i monitro gan golegau a gallai effeithio ar sut y mae colegau'n rheoli eu materion mewnol eu hunain yn y tymor hwy.

> Byddai gan y newidiadau hyn gryn oblygiadau i golegau, gan gynnwys:
>
> - byddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan golegau yn dod yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru;
> - ni fyddai colegau yn gallu cadw'r arian dros ben i ddatblygu cronfeydd wrth gefn ar gyfer talu am brosiectau yn y dyfodol, er enghraifft prosiectau cyfalaf neu ailstrwythuro.
>
> O ystyried hyn oll, mae angen osgoi'r newidiadau hynny a allai rwystro trefniadau i weithio mewn partneriaeth, arloesi a chydweithio yn y sector AB yn y dyfodol. Rhaid i golegau allu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ar y ffordd orau i reoli eu materion mewnol er budd eu dysgwyr, eu gweithwyr a'u cymunedau. [29]

Yn ei dogfen ymgynghori mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud newidiadau mewn pedwar maes allweddol i helpu i roi mwy o gyfrifoldeb i golegau reoli eu materion eu hunain:

- Mwy o bwerau i golegau wneud newidiadau i'w Hofferyn ac Erthyglau Llywodraethu
- Gallu colegau i ddiddymu eu hunain
- Mwy o ryddid i golegau fenthyg arian
- Ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru

Cred Llywodraeth Cymru y byddai'r newidiadau hyn yn helpu colegau i gael eu hailddosbarthu fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd. Maent hefyd yn gweld ColegauCymru'n cymryd rhan flaenllaw yn ogystal â datblygu Cod Llywodraethu ar gyfer y sector AB ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

[29] Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)** , Gorffennaf 2012 [fel ar 4 Medi]

## *6.2. Ymatebion i'r ymgynghoriad*

Daeth yr ymgynghoriad ar y papur gwyn i ben **ar 24 Medi 2012** ac yn ôl crynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad[30], cafwyd 52 o ymatebion i'r adran AB gan gynnwys wyth oddi wrth SABau[31]. Noda'r crynodeb:

> Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Papur Gwyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng rhoi cyfrifoldeb i golegau eu rheoli eu hunain ond gan weithio o fewn meysydd polisi cyffredinol a bennir gan y Llywodraeth. Roedd rhai ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod aeddfedrwydd y sector yn cael ei gydnabod a'r cynnig i gyflwyno mwy o hyblygrwydd, gan ganiatáu i'r sector addysg bellach ymateb yn gyflym i anghenion lleol ac i newidiadau yn yr economi. [32]

Mewn ymateb i'r cwestiwn ar roi rhagor o bwerau i golegau **newid eu Hofferynnau ac Erthyglau Llywodraethu** cafwyd ymateb cymysg gyda rhai ymatebwyr o'r farn y bydd hyn yn helpu colegau i ymateb i anghenion lleol ond roedd eraill yn pryderu y gallai hyn arwain at drefniadau llywodraethu mwy cymhleth.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai colegau gael y **pwerau i ddiddymu eu hunain** ar yr amod bod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, teimlai'r ymatebwyr fod elfen o risg wrth roi **mwy o ryddid i golegau gael benthyg arian** ac mai penderfyniad y Gorfforaeth ddylai hyn fod yn y pen draw ac y dylid rhoi proses archwilio allanol ar waith i fonitro hyn.

Mewn ymateb i'r cynnig i **ailddosbarthu colegau a rhoi statws Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd iddynt** nododd rhai ymatebwyr y gallai hyn arwain at breifateiddio'r sector AB a phwysleisiwyd y dylai colegau ganolbwyntio'n bennaf ar eu dysgwyr a'u cymunedau. Roedd yr ymatebwyr o blaid **cyfres glir o ganllawiau ar gyfer monitro** SABau ac amgylchiadau lle roedd modd cyfiawnhau **ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.**

Mae ymateb ColegauCymru i'r ymgynghoriad yn nodi:

> ColegauCymru welcomes the key role envisaged for it on the White Paper in 'leading the sector and ensuring a sense of shared responsibility across all colleges'.(…)The ColegauCymru Board embraces this challenge and will wish to work closely with the Welsh Government in drawing up a code of governance and a code of practice covering the relationship between FE colleges and the WG.[33]

---

[30] Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn – crynodeb o'r ymatebion: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), Mawrth 2013 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[31] Gan gynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Coleg Sir Benfro, Coleg Morgannwg a Choleg Glannau Dyfrdwy. Arhosodd nifer o ymatebwyr yn ddienw hefyd.
[32] Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn – crynodeb o'r ymatebion: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), t9, Mawrth 2013 [fel ar 8 Mawrth 2013]
[33] ColegauCymru, Response to White Paper: Further and Higher Education (Wales) Bill, (Saesneg yn unig) Medi 2012 [fel ar 8 Mawrth 2013]

Fodd bynnag, mae ColegauCymru'n cydnabod:

> … the final decision on whether to classify FE colleges as NPISH or as central government public sector entities lies with the ONS, not the Welsh Government.

Ar 6 Mawrth 2013, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru ddatganiad ysgrifenedig yn sgil cyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r papur gwyn sy'n nodi:

> O ran addysg uwch, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddadansoddi a datblygu ymhellach y cynigion yn y Papur Gwyn. Byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn. (…)Byddwn yn bwrw ymlaen â'r darpariaethau mewn perthynas ag Addysg Bellach a Rhannu Data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel deddfwriaeth i'w chyflwyno yng ngwanwyn 2013. [34]

---

[34] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), **Crynodeb Llywodraeth Cymru o'r Ymatebion i'r Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013**, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 6 Mawrth 2013 [fel ar 15 Mawrth 2013]

## 7. Map yn dangos lleoliad SABau yng Nghymru

Mae'r map isod yn dangos lleoliad campysau colegau AB yng Nghymru, fel ym mis Mawrth 2013.

